

# amserbeibl

Gwersi o'r Beibl – Safon 3

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran \_\_\_\_\_ Dyddiad geni \_\_\_\_\_

Enw \_\_\_\_\_

Cyfeiriad \_\_\_\_\_

Enw Arweinydd y Dosbarth \_\_\_\_\_



Gwersi Beiblaidd o'r Hen Destament

Cofiwch mai un llythyren yw ch,dd,ff,ng,ll,ph,rh,th



DARLLENWCH  
I Samuel 1: 1-28

## Gwers 1 Samuel – Gweddio ar Dduw

Yng nghyfnod y stori hon, byddai nifer o bobl Israel yn teithio bob blwyddyn i Dŷ Dduw yn Seilo. Eli oedd yr offeiriad yno. Cawn ein cyflwyno i Elcana a'i ddwy wraig. Maent ar eu pererindod flynyddol i addoli'r Arglwydd yn Seilo.

**C** Ad-drefnwch y llythrennau er mwyn canfod enwau ei ddwy wraig.

NIPNAEN \_\_\_\_\_ NHANA \_\_\_\_\_



2

Yn y wers hon mae problem, gweddi ac addewid.

**C** Ysgrifennwch beth oedd problem Hanna.

2

**C** Edrychwch ar adnodau 9 a 10 ac ysgrifennwch beth sy'n digwydd ym mhob llun.



3

**C** Darllenwch yr ail Adnod Allweddol ac atebwch y canlynol.

1. Beth oedd hi'n ei wneud wrth weddio?

2

2. Am beth ofynnodd hi i'r Arglwydd?

3. Beth addawodd hi ei wneud pan fyddai'r Arglwydd yn ateb ei gweddi?

1
2

2

Fe wnaeth Hanna'r peth iawn pan weddiodd ynglŷn â'i phroblem.

**C** Pa deitl ddefnyddiodd hi am Dduw wrth weddio? (Adnod 11)

**C** Rhowch linell drwy'r ateb ANGHYWIR.

Parhaodd Hanna i weddio am amser BYR / HIR.  
Roedd hi'n gweddio'n UCHEL / DDISTAW.  
Roedd ei gwefusau'n SYMUD / LLONYDD.  
Roedd ei llais yn GLYWADWY / ANHYGLYW.



1

4

Credai Eli ei bod yn feddw. Rhaid bod teimladau Hanna wedi eu brifo'n arw! Gallwn ninnau hefyd frifo eraill drwy farnu'n anghywir!

**C** Crynowch beth oedd yr ateb roddodd Hanna i Eli.


2

Cysurodd Eli Hanna ac aeth y wraig adref yn hapus. Cyn hynny, roedd hi wedi bod mor anhapus fel na fedrai fwyta. Arllwysodd ei gofidiau gerbron yr Arglwydd, a bellach roedd hi'n mynd adref yn gwbl sicr fod yr Arglwydd wedi clywed ei gweddi a'i fod Ef yn mynd i ateb y weddi honno. Ychydig llai na blwyddyn yn ddiweddarach, atebwyd ei gweddi.

**C** Beth oedd yr enw a roddodd hi ar ei phlentyn, a pham?


2

Am rai blynyddoedd wedyn, arhosodd Hanna gartref i fagu'r baban tra byddai Elcana yn mynd â'i deulu i Seilo bob blwyddyn. Pan oedd Samuel yn ddigon hen i fwyta bwyd cyffredin, paratodd Elcana a Hanna offrwm o fwyd ac aethant â Samuel ar ymweliad â Thŷ Dduw. Roedd Duw wedi ateb gweddi Hanna, ac wedi datrys ei phroblem. Cadwodd Hanna ei haddewid i'r Arglwydd.

*Pan fydd gyda ni broblem, dylem siarad â'r Arglwydd yn ei chylch, yn union fel y gwnaeth Hanna. Dylem barhau i weddio hyd nes y bydd Duw wedi dangos yn glir i ni beth mae Ef am i ni ei wneud.*



DARLLENWCH  
I Samuel 2: 1-2, 18-21,  
26, 34



ADNOD  
ALLWEDDOL  
I Samuel 2: 30

## Gwers 2 Samuel – Tyfu gerbron Duw

Roedd Duw wedi ateb gweddi Hanna ac wedi rhoi iddi'r plentyn y bu'n dyheu amdano ers blynnyddoedd. Cadwodd ei haddewid a daeth â'i mab bach, Samuel, i Dŷ Dduw lle câi hwnw ddysgu i weithio dros Dduw, wrth iddo dyfu'n ddyn.

**C P'un o'r atebion canlynol sy'n disgrifio am ba hyd y cyflwynodd Hanna Samuel i'r Arglwydd? Tanlinellwch yr ateb cywir.**

Tri mis      Tair blynedd      Nes ei fod yn ddyn      Am ei oes gyfan

**C Atebwch GWIR neu ANWIR i'r canlynol:-**

Aeth Hanna adref o Dŷ'r Arglwydd yn drist iawn. ....

Roedd Hanna yn llawenhau yn yr Arglwydd. ....

Dywedodd Hanna fod yr Arglwydd yn sanctaidd. ....

Roedd Hanna'n rhoi'r bai ar Dduw am bopeth a ddigwyddodd. ....

**C Nawr, darllenwch adnodau 18-21 i weld sut roedd Samuel yn dod yn ei flaen. Ysgrifennwch y rhan honno o adnod 18 sy'n dweud wrthym sut roedd yn gwasanaethu'r Arglwydd.**

Mae'n bosibl fod ei dasgau'n cynnwys helpu Eli i lanhau'r dodrefn, ysgubo'r lloriau, agor y drysau a pharatoi'r offrymau.

Rhaid ei fod hefyd wedi treulio amser yn dysgu o Air Duw, fel y rhoddwyd y Gair hwnnw i Moses.

**C Gweithiai Samuel yn galed.**

**Roedd yn gwasanaethu'r**

.....

Os ydym yn caru'r Arglwydd Iesu ac yn ymddiried Ynddo, pan fyddwn yn gwneud gorchwylion cyffredin dros bobl eraill, dylem eu gwneud fel pe baem yn gwasanaethu Duw ei Hun. "Beth bynnag yr ydych yn ei wneud, gweithiwch â'ch holl galon, fel i'r Arglwydd, ac nid i neb arall." (Colosiaid 3: 23)



**Nawr atebwch y Croesair er mwyn canfod beth ddigwyddodd nesaf yn y stori.**

**I LAWR**

1. Bob blwyddyn, deuai hon i ymweld â Samuel. (ad. 19)
2. .... Eli Hannah ac Elcana. (ad. 20)
3. .... Samuel ym mhresenoldeb yr Arglwydd
- 4 Câi Samuel un o'r rhain bob blwyddyn.

**AR DRAWS**

- 5 Ganwyd ..... mab arall i Hanna.
6. Cyflwynai Hanna ac Elcana ..... bob blwyddyn.
7. .... ferch oedd gan Hanna.
8. Dywedodd Eli y byddai'r ..... yn rhoi plant i Hanna.

					6	2			
				4					
								3	
						7			
				5					
1									
8									

8

**C Llanwch y geiriau sydd ar goll er mwyn canfod beth oedd yn digwydd i Samuel.**

ffafr Duw dal bobl

Ac yr oedd y bachgen Samuel yn ..... i gynyddu ac ennill ..... gyda ..... a'r .....

2

Er ei fod mor ifanc, roedd Samuel yn tyfu i fod yn weithiwr arbennig dros Dduw. Dylai pob Cristion ifanc hefyd wneud beth y mae'r Arglwydd yn dymuno iddynt ei wneud, a'i wasanaethu Ef mewn unrhyw fodd ag y medrant. Tra bod Samuel yn gwneud ei orau, roedd meibion Eli yn gwneud yn gwbl groes i hyn. Doedden nhw ddim yn poeni am wasanaethu'r Arglwydd nac am ufuddhau i'w orchymnion Ef.

**C Edrychwch ar adnod 34 ac ysgrifennwch enwau meibion Eli.**

1 2

2

**C Pa gosb fyddai'n dod i ran y bechygyn hyn?**

1

Ydych chi'n mynd i dyfu i fyny a byw dros Dduw? Roedd Eli yn offeiriad da, ond dangosodd ffafriaeth tuag at ei feibion. Gadawodd iddynt ddod rhyngddo ef a'r Arglwydd.

Mae'r Adnod Allweddol yn esbonio mor bwysig yw gosod Duw yn gyntaf yn ein bywydau a bod yn ufudd Iddo Ef.

**Darllenwch yr adnod hon eto a meddyliwch am yr hyn sy'n cael ei ddweud.**



DARLLENWCH  
I Samuel 3: 1-21






ADNOD  
ALLWEDDOL  
I Samuel 3: 10

### Gwers 3 Samuel – Gwrando ar Dduw

Yn y wers hon mae Samuel yn dysgu gwrando ar yr hyn sydd gan yr Arglwydd i'w ddweud wrtho. Digwyddodd hyn ar adeg o ddrygioni mawr yn Israel. Roedd yr hyn oedd gan yr Arglwydd i'w ddweud, felly, yn bwysig iawn. Un noson, pan oedd Eli, a oedd erbyn hyn yn mynd yn hen, wedi mynd i'r gwely, a Samuel hefyd yn gorffwys, digwyddodd rhywbeth gwirioneddol ryfeddol.

**C** Gosodwch y lluniau canlynol yn eu trefn gywir drwy ysgrifennu'r rhifau 1-5 wrth eu hmyl.



5

**C** Sawl gwaith yr aeth Samuel at Eli? Rhowch gylch o gwmpas yr ateb cywir.

4 gwaith    2 waith    5 gwaith    3 gwaith

1

**C** Ysgrifennwch **CYWIR** neu **ANGHYWIR** ar ôl y brawddegau canlynol:-

Cysgodd Samuel yn braf drwy'r nos. ....


Sylweddolodd Eli ar ôl y trydydd tro fod yr Arglwydd yn siarad â Samuel. ....

Nid oedd Samuel yn adnabod yr Arglwydd. ....

Clywodd meibion Eli hefyd yr Arglwydd yn siarad. ....

4

**C** Edrychwch ar yr Adnod Allweddol ac ysgrifennwch y rhan honno sy'n dweud wrthym beth ddywedodd Samuel wrth yr Arglwydd ar y pedwerydd tro.



Clywodd Samuel lais yr Arglwydd ei Hun. Gwrandawodd ar y newyddion ofnadwy bod yr Arglwydd yn mynd i gosbi Eli a'i deulu. Heddiw, fyddwn ni ddim yn clywed llais yr Arglwydd ei Hun mewn gwirionedd, fel llais person dynol, ond bydd Ef yn siarad â ni drwy Ei Air, y Beibl. Dyna pam y dylem ei ddarllen bob dydd a chadw ein meddyliau'n agored i dderbyn yr hyn y mae'n ei ddweud. Dylem weddio cyn darllen. Mae'r geiriau rydych chi newydd eu hysgrifennu o'r Adnod Allweddol yn weddi dda i'w hadrodd cyn i chi ddarllen y Beibl. Rhaid i ni ufuddhau i'r Arglwydd drwy wneud yr hyn y mae Ef yn ei ddweud.

**C** Atebwch **GWIR** neu **ANWIR**:-

Arhosodd Samuel ar ei draed drwy'r nos. ....

Roedd arno ofn siarad ag Eli. ....


Rhannau yn unig o'r neges a adroddodd Samuel wrth Eli. ....

Nid oedd Eli'n teimlo'n chwerw yn erbyn Duw pan glywodd

beth oedd yn mynd i ddigwydd i'w feibion. ....



**C** Beth ddywedodd Eli yn adnod 18?



**C** Defnyddiwch y geiriau isod i lanw'r bylchau yn y paragraff canlynol.

gyda broffwyd Arglwydd wir

Yr oedd yr Arglwydd ..... Samuel. Bendithiodd yr Arglwydd ef a daeth popeth a ddywedodd

yn ..... Daeth Samuel i adnabod yr .....

Gwyddai'r wlad i gyd fod Samuel yn ..... i'r Arglwydd.



Dysgodd Samuel mor bwysig yw gwrando ar yr hyn oedd gan yr Arglwydd i'w ddweud wrtho. Dyma beth ddylai pob un ohonom ei wneud. Roedd Samuel hefyd yn dod i adnabod yr Arglwydd, ac mae hynny'n beth pwysig iawn. Dylai pobl sy'n credu yn yr Arglwydd lesu ofyn dau gwestiwn iddynt eu hunain:

**“Ydw i'n gwrando ar lais yr Arglwydd wrth i fi ddarllen Ei Air?”**  
**“Ydw i'n dod i adnabod yr Arglwydd yn well wrth i fi fynd yn hŷn?”**





DARLLENWCH  
I Samuel 8: 1-9  
9: 1, 2 a 14-27, 10: 1



ADNOD  
ALLWEDDOL  
I Samuel 9: 6

## Gwers 4 Samuel – Gweithio dros Dduw

Aeth nifer o flynyddoedd heibio ac roedd Samuel bellach yn hen ŵr. Erbyn hyn, nid oedd yn gallu rheoli Israel fel y gwnaeth am y rhan fwyaf o'i fywyd.

### C Beth oedd enwau ei ddau fab a benodwyd yn farnwyr?



2

Roedd y meibion hyn yn wahanol iawn i'w tad, gan eu bod yn anufudd i Dduw.

**Darllenwch I Samuel 8: 1-9 eto a chwblhewch y Chwilair i ganfod beth ddigwyddodd wedyn.**

### CHWILAIR

Ysgrifennwch yr atebion i'r cliwiau hyn a rhowch gylch o'u hamgylch yn y chwilair. Maent wedi eu cuddio i fyny, i lawr, ar draws, yn groeslinol, ymlaen ac yn ôl.

1. Ble y cyfarfu arweinwyr Israel â Samuel?  
(ad. 4) .....
2. Am beth y gofynnodd yr arweinwyr?  
(ad. 5) .....
3. Tebyg i bwy roedd Israel eisiau bod?  
(ad. 5) .....
4. Sut oedd Samuel yn teimlo pan glywodd eu cais?  
(ad. 6) .....
5. Beth wnaeth Samuel ar ôl hyn?  
(ad. 6) .....
6. Dywedodd yr Arglwydd "Gwrthodasant ...." (ad.7)
7. Roedd Israel wedi gwrthod Duw ers iddynt gael eu dwyn allan o'r ..... (ad.8)
8. Yn hytrach na dilyn Duw roeddent wedi dilyn ..... eraill (ad.8)

D	d	R	A	M	A	R	L
E	Y	T	I	F	Ch	B	
O	T	Ch	I	Ff	G	R	
L	G	U	Y	A	T	E	
D	O	A	C	T	R	N	
E	F	I	P	H	F	I	
H	I	W	d	O	M	N	
N	D	U	T	E	V	Ff	
E	U	D	L	S	W	S	
C	S	W	Y	L	N	G	

8

### C Darllenwch yr adnodau ar ddechrau pennod 9 a chwblhewch y FFEIL FFEITHIAU i ganfod gymaint ag y medrwch am Saul.

FFEIL	FFEITHIAU
Enw ei dad oedd .....	Ei olwg .....
Enw ei lwyth oedd .....	.....
Ei daldra .....	Roedd ei dad wedi ei anfon i .....



5



**C** Rhowch ✓ wrth ymyl yr ateb cywir i esbonio pam nad oedd Saul yn dymuno mynd i chwilio am Samuel.

Nid oedd yn credu mewn proffwydi.



Nid oedd ganddo anrheg i'r proffwyd.



Credai y byddai'n dod o hyd i'r asynnod cyn hir.



**C** Edrychwch ar adnod 16 ac YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN ysgrifennwch beth ddywedodd Duw wrth Samuel ddiwrnod ynghynt.




**C** Ysgrifennwch yn y swigen siarad gywir: (gweler adnodau 17-19)





1. Beth ddywedodd

Duw pan gyrhaeddodd Saul.

2. Beth ddywedodd Saul.


3. Beth ddywedodd Samuel.



**SAUL**



**SAMUEL**



Yn ddiweddarach, cafodd Saul ei eneinio yn frenin cyntaf ar Israel. Dyma ddechrau cyfnod newydd yn hanes Israel. Roedd Samuel wedi chwarae rhan bwysig yn hanes ei bobl ers blynyddoedd lawer. Fel proffwyd a barnwr, roedd gan bobl barch mawr tuag ato. Cyfrinach ei fawredd oedd ei berthynas agos â Duw. Gall ein bywydau ninnau hefyd fod yn ddefnyddiol pan fydd Duw yn cael bod yn llwyr wrth y llyw. Darllenwch yn I Samuel 12:24 beth ddywedodd Samuel ac yntau bellach bron ar ddiwedd ei oes.

**cyfanswm**



Marciau  
[i'w nodi gan yr athro]


Cyfanswm

Cyfanswm llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services, P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.  
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar [www.biblelinkit.com](http://www.biblelinkit.com) neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddwr y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.  
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynnyr Roberts.  
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o [www.amserbeibl.org](http://www.amserbeibl.org)  
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:  
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH % 01766 819120